Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen

Caneuon Ffydd: Rhif 527

Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen,
cyn gosod haul na lloer na sêr uwchben,
fe drefnwyd ffordd yng nghyngor Tri yn Un
i achub gwael, golledig, euog ddyn.

Trysorwyd gras, ryw annherfynol stôr,
yn Iesu Grist cyn rhoddi deddf i'r môr;
a rhedeg wnaeth bendithion arfaeth ddrud
fel afon gref, lifeiriol dros y byd.

I ddynol-ryw Iachawdwr gwiw a gaed,
dros lwch y llawr fe roes ei werthfawr waed;
pob peth a ddaeth drwy'r iachawdwriaeth rad:
gwisg hardd i'r noeth, a chyfoeth ac iachâd.

Mae'r utgorn mawr yn seinio nawr i ni
ollyngdod llawn drwy'r Iawn ar Galfarî:
mawl ymhob iaith drwy'r ddaear faith a fydd
am angau'r groes a'r gwaed a'n rhoes yn rhydd.

PEDR FARDD, 1775–1845

MYFYRDOD

Efallai bod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dir anghyfarwydd i ni bellach a'r ugeinfed ganrif wedi ei gosod rhyngom ni a phobl y ganrif honno. Roedd hi'n ganrif gynhyrchiol o ran ei llenyddiaeth a'i hemynyddiaeth, yn ganrif o bobl danbaid eu daliadau hefyd (yn enwedig ei hanner cyntaf), ac yn enwedig yn ddiwinyddol. Er mai fel bardd ac emynydd y cofiwn Peter Jones, neu Pedr Fardd o Eifionydd, a'i osod ar wahân i gewri'r pulpud yn y cyfnod ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg – rhai fel John Elias, William Wiliams, Wern, Ebenezer Richard a Christmas Evans – roedd yna gymaint o ddiwinydda yng nghynnwys yr emynau a'r cerddi ag yn y cannoedd llyfrau a gynhyrchodd pobl y cyfnod hwn.

Pobl Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedden nhw i gyd, a 'ffurfient awyr feddyliol a moesol ein gwlad', yn ôl Derec Llwyd Morgan.

Ceir gosod allan athrawiaeth cyn bodolaeth Iesu Grist, y Mab, mewn ffordd odidog a chofiadwy yn nau bennill cyntaf emyn Pedr Fardd. Roedd y berthynas a ddaliai â'r Drindod yn bodoli ers tragwyddoldeb ei hun. Ef yw'r Mab ac Ail Berson y Drindod, ac felly y bu hi erioed. Yr oedd 'ym mynwes y Tad' (Ioan 1:18), a'r Tad yn ei garu 'cyn seilio'r byd' (Ioan 17:24). 'Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu. Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll' (Col. 1:16–17). A wyddai Duw y byddai angen i'r Mab hwn achub y ddynoliaeth yn y modd a wnaeth? Dyna ddywed Pedr Fardd amdano. Yr oedd yn rhan o fwriad Duw o'r dechrau, ac nid yn gynllun a gadwyd wrth gefn pan fyddai popeth arall yn methu! Dywed awdur y Llythyr at yr Hebreaid 'Mewn llawer dull a llawer modd y llefarodd Duw gynt . . . ond yn y dyddiau olaf hyn llefarodd wrthym ni mewn Mab.' (Heb 1:1). Ef yw sail ein bywyd ni ac mae'n oleuni i ni ac ef ei hun oedd wrthi yn y byd yn paratoi ar gyfer ei ddyfodiad ei hun 'i achub gwael, golledig, euog ddyn'.

Dywed Pedr Fardd ymhellach fod digon o ras wedi ei drysori yn Iesu Grist – 'ryw annherfynol stôr' i achub y byd yn gyfan. Cadarnha'r emynydd nad oes dim diffyg na chyfyngiad nac angen yn aberth Iesu Grist drosom. 'Carodd Duw y byd' yw byrdwn Iesu yn Ioan 3:16, nid rhan ohono, a hynny sy'n rhoi sail i'n cenhadaeth fel Eglwys ac i Pedr Fardd osod yr emyn hwn yn un o'r deunaw emyn cenhadol sydd ganddo yn ei *Crynhoad o Hymnau* (1830). Gwelwn hefyd fod yma 'ollyngdod *llawn* drwy'r Iawn ar Galfarî', ac nid oes dim yn eisiau yn yr Iawn hwn a wnaeth Crist ar y groes er mwyn ein hachub o'n pechod. Am hyn y bu dadlau tanbaid a manwl yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd yr athrawiaethau hyn yn rhan o sôn bob dydd pobl ac y gallent nodi beth oedd gwerth aberth Crist drostynt.

GWEDDI

Diolch iti, O Dduw, am y gras a drysorwyd yn Iesu Grist – 'cyn rhoddi deddf i'r môr' hyd yn oed. Helpa fi i sylweddoli pris y 'gollyngdod llawn' a gefais 'drwy'r Iawn ar Galfarî', ac i fod yn fythol ddiolchgar i ti am yr 'Iachawdwr gwiw a gaed'. Amen.